



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Hywel Dda  
University Health Board

# Opsiynau ar gyfer Uned Mân Anafiadau Ysbyty Tywysog Philip, Llanelli i'r dyfodol

---

Dogfen yr ymgynghoriad

# Cysylltu â ni: Cael y wybodaeth sydd ei hangen arnoch

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg ac ar ein gwefan mewn fformatau arall fel fersiwn sain a fersiwn hawdd ei ddeall.



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn ieithoedd ychwanegol (gan gynnwys Arabeg, Iaith Arwyddion Prydain, Pwyleg, Rwsieg ac Wcreineg). Gallwch weld y dogfennau hyn ar ein gwefan gan sganio'r cod QR neu gan droi at [biphdd.gig.cymru/UMAYTP](https://biphdd.gig.cymru/UMAYTP).

I wneud cais am fersiwn print o unrhyw ddogfen (rydym wedi cynnwys nifer o ddolenni gwe i ddogfennau yn y cyhoeddiad hwn), neu os ydych yn cael trafferth cyrchu gwybodaeth mewn fformat hygyrch ar gyfer eich anghenion, ffoniwch ni ar **0300 303 8322** (opsiwn 5), (pris galwad leol).

يتوفر ملخص لهذه الوثيقة باللغة العربية على موقعنا الإلكتروني [hduhb.nhs.wales/PPHMIU](https://hduhb.nhs.wales/PPHMIU) – أو يمكنك طلب نسخة ورقية عن طريق الاتصال بنا على 0300 303 8322. (رسوم المكالمات المحلية). إذا كنت تريد منا توضيح أي جزء من المستند، يرجى الاتصال بنا.

Informacje w języku polskim dostępne są na naszej stronie internetowej [hduhb.nhs.wales/PPHMIU](https://hduhb.nhs.wales/PPHMIU) możesz też poprosić o wersję drukowaną, dzwoniąc pod numer **0300 303 8322** (opłaty za połączenia lokalne). Skontaktuj się z nami, jeśli chcesz, abyśmy wyjaśnili jakąkolwiek część dokumentu.

Информация на русском языке доступна на нашем сайте [hduhb.nhs.wales/PPHMIU](https://hduhb.nhs.wales/PPHMIU) Либо, печатный экземпляр данного документа можно получить, позвонив нам по телефону **0300 303 8322** (по местному тарифу). Просим связаться с нами, если вам необходимо пояснение каких-то частей документа

Інформація українською мовою доступна на нашому сайті [hduhb.nhs.wales/PPHMIU](https://hduhb.nhs.wales/PPHMIU) - або ви можете запросити друковану копію, зателефонувавши нам за номером **0300 303 8322** (місцеві тарифи дзвінків). Будь ласка, зв'яжіться з нами, якщо ви хочете, щоб ми пояснили будь-яку частину документа.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty Tywysog Philip a sut rydym yn darparu gofal iechyd sy'n ddiogel, cynaliadwy, hygyrch a charedig. Mae'r ymgynghoriad yn rhedeg tan 22 Gorffennaf 2025, felly mae angen i ni glywed eich barn cyn hynny. Gwiriwch ein tudalennau gwe neu ffoniwch ni i gael gwybod am ddiwyddiad yn eich ardal chi neu ddiwyddiad ar-lein. Os hoffai eich mudiad neu grŵp cymunedol wybod mwy am yr ymgynghoriad, cysylltwch â ni ar y manylion cyswllt isod.

Mae mwy o wybodaeth ar dudalen 23, ond gallwch rannu eich barn yn y ffyrdd canlynol:

- ▶ llenwi'r holiadur ar-lein: [biphdd.gig.cymru/UMAYTP](https://biphdd.gig.cymru/UMAYTP) neu fel copi caled (gallwch ofyn am gopi caled trwy gysylltu â ni ar ebost neu dros y ffôn), ai bostio i: **FREEPOST HYWEL DDA HEALTH BOARD** (nid oes angen stamp)
- ▶ anfon ebost atom: [hyweldda.ymgysylltu@wales.nhs.uk](mailto:hyweldda.ymgysylltu@wales.nhs.uk)
- ▶ dod i siarad â ni yn y digwyddiadau (trowch at ein gwefan i weld digwyddiad sy'n lleol i chi neu ddiwyddiad ar-lein), neu ffoniwch ni ar **0300 303 8322** (opsiwn 5) (pris galwad leol)

# Cynnwys

---

Croeso	4
Cyflwyniad	5
Beth yw Uned Mân Anafiadau?	6
Beth yw'r ymgynghoriad hwn?	6
Pam fod angen newid y gwasanaeth presennol?	7
Beth sydd wedi digwydd ers y newid dros dro i oriau agor?	7
Sut y datblygwyd yr opsiynau	9
Sut mae'r opsiynau'n cymharu â'i gilydd?	13
Sgorio'r opsiynau	18
Ceisio eich barn ar opsiynau	19
Gyda phwy rydyn ni am siarad â nhw a chlywed ganddynt	19
Yr hyn yr ydym am ei wybod	20
Effeithiau ar gydraddoldeb – nodweddion gwarchoddedig	20
Beth sy'n digwydd nesaf?	22
Cymryd rhan	23
Datganiad Preifatrwydd – beth sy'n digwydd â'ch adborth?	23
Rydyn ni'n gwranddo	24
Sut byddwn yn rhoi adborth i chi	24

---

# Croeso

---

Diolch am ddangos diddordeb yn ein hymgyngoriad ar sut y gallem ddarparu gwasanaethau yn yr Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty Tywysog Philip, Llanelli yn y dyfodol.

Rydym yn ceisio eich barn ar y model gorau ar gyfer yr Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty Tywysog Philip yn dilyn gostyngiad dros dro yn yr oriau agor (o 24 awr y dydd i 12 awr y dydd) a gytunwyd gan ein Bwrdd ym mis Medi 2024 ac a gyflwynwyd ar 1 Tachwedd 2024 am gyfnod o chwe mis, tra datblygwyd opsiynau ar gyfer dyfodol yr uned.

Gwnaed y newid brys a thros dro hyn i oriau agor oherwydd pryderon am ansawdd a diogelwch, a godwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Yn ogystal â'r materion diogelwch ac ansawdd, roedd diffyg meddygon ar gael i weithio dros nos yn yr uned, gan olygu bod y risg i ddiogelwch yn fwy. Bu ymdrechion i recriwtio meddygon yn genedlaethol ond ni fu'n bosibl recriwtio digon o feddygon sy'n fodlon gweithio dros nos yn yr Uned.

Gall fod yn anodd cyflwyno newidiadau dros dro a brys i wasanaethau a dim ond pan fyddwn yn teimlo nad oes gennym unrhyw ddewis arall i sicrhau diogelwch ac ansawdd ein gwasanaethau y gwneir hyn. Rydym yn ddiolchgar i'n cymunedau, a'n staff, am eu cefnogaeth barhaus yn ystod y newid i oriau agor.

Ym mis Tachwedd 2024, bu'r Bwrdd yn ystyried sut y gellid datblygu'r opsiynau tymor hwy ar gyfer y model darparu gwasanaeth yn yr Uned Mân Anafiadau. I gefnogi'r gwaith hwn, sefydlwyd tri grŵp:

- ▶ Grŵp Llywio, a gadeirir gan y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Dros Dro, gydag aelodau o staff clinigol a chymorth, ynghyd â Llais (corff statudol annibynnol, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i roi mwy o lais i bobl Cymru wrth gynllunio a darparu eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol), a chynrychiolwyr Rhwydwaith Gweithredu er Achub Gwasanaethau Ysbyty Tywysog Philip (SOSPPAN).
- ▶ Grŵp Prosiect, a gadeirir gan Gyfarwyddwr Ysbyty Tywysog Philip gydag aelodau o staff clinigol a chymorth, ynghyd â chynrychiolwyr Llais a SOSPPAN.
- ▶ Grŵp rhanddeiliaid gwerthuso opsiynau yn cynnwys aelodau Llais, SOSPPAN, ac unigolion oedd wedi mynegi diddordeb mewn bod yn rhan o'r broses datblygu opsiynau.

Yng nghyfarfod y Bwrdd Cyhoeddus ym mis Mawrth 2025, ystyriodd ein Bwrdd a allem adfer yr oriau agor 24 awr bob dydd yn yr Uned Mân Anafiadau. Penderfynodd aelodau'r Bwrdd, yn seiliedig yn bennaf ar bwysau staffio ac nad oes rota 24 awr gadarn ar waith, na allai ddychwelyd i'r oriau agor gwreiddiol. Cytunodd y Bwrdd y dylai'r newid dros dro i oriau agor o 12 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos barhau hyd nes y gellir gweithredu opsiwn hirdymor.

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu o'u hamser a'u hadborth i helpu i ddatblygu'r opsiynau yr ydym yn awr yn ceisio eich barn arnynt. Mae hyn yn cynnwys yr adborth a gafwyd gan aelodau o'n cymuned a fynychodd y digwyddiadau galw heibio ym mis Hydref 2024, ac yn fwy diweddar ym mis Mawrth 2025.

Nid oes unrhyw benderfyniadau am fodel y dyfodol ar gyfer yr Uned Mân Anafiadau wedi'u gwneud eto ac rydym am siarad â chi – ein staff, cleifion, cymunedau ehangach, sefydliadau rydym yn gweithio gyda nhw a phobl sydd â diddordeb mewn iechyd a llesiant yn ein hardal.

Dywedwch wrthym beth yw eich barn am yr opsiynau yn yr ymgynghoriad hwn a sut y gallent effeithio arnoch chi, neu unrhyw syniadau newydd a allai fod gennych, trwy lenwi ein holiadur erbyn 22 Gorffennaf 2025.

Neil Wooding  
Cadeirydd

Yr Athro Philip Kloer  
Prif Weithredwr

Mr Mark Henwood  
Cyfarwyddwr Meddygol Dros Dro

# Cyflwyniad


Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yw eich sefydliad GIG lleol.

Rydym yn cynllunio, yn trefnu ac yn darparu gwasanaethau iechyd ar gyfer bron i 400,000 o bobl. Mae hyn ar draws chwarter ehangdir Cymru yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro, yn ogystal â chymunedau ar ein ffiniau yn ne Gwynedd, gogledd Powys, ac Abertawe/Castell-nedd Port Talbot.

Mae ein cymunedau yn eithaf gwasgaredig mewn ardaloedd gwledig. Mae bron i hanner ein poblogaeth (49.10%) yn byw yn Sir Gaerfyrddin, 32.23% yn Sir Benfro a 18.7% yng Ngheredigion. Rydym yn rheoli ac yn talu am y gofal a'r driniaeth y mae pobl yn eu derbyn yn yr ardal hon ar gyfer iechyd corfforol, iechyd meddwl ac anableddau dysgu.

Ar hyn o bryd rydym yn darparu gwasanaethau drwy'r canlynol:

- ▶ pedwar prif ysbyty (Ysbyty Bronglais yn Aberystwyth, Ysbyty Glangwili yng Nghaerfyrddin, Ysbyty Tywysog Philip yn Llanelli ac Ysbyty Llwynhelyg yn Hwlfordd)
- ▶ pum ysbyty cymunedol (Ysbyty Dyffryn Aman ac Ysbyty Llanymddyfri yn Sir Gaerfyrddin, Ysbyty Tregaron yng Ngheredigion, Ysbyty Dinbych-y-pysgod ac Ysbyty De Sir Benfro yn Sir Benfro)
- ▶ dwy ganolfan gofal integredig (Aberaeron ac Aberteifi, y ddwy yng Ngheredigion)
- ▶ cyfleusterau cymunedol, gan gynnwys:
  - ▶ 46 Meddygfa
  - ▶ 38 Deintyddfa
  - ▶ 97 Fferyllfa Gymunedol
  - ▶ 43 Practis Offthalmig Cyffredinol (gan gynnwys gwasanaethau iechyd llygaid a golwg gwan)
  - ▶ 9 darparwr Gofal Cartref Offthalmig
  - ▶ 38 o safleoedd yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu
- ▶ gofal yn eich cartrefi eich hun.



Mae gwasanaethau tra arbenigol, fel rhai triniaethau trawma mawr, gofal cardiaidd (y galon), triniaethau llygaid arbenigol, a llosgiadau cymhleth, yn cael eu trefnu'n bennaf drwy Gydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru. Gellir darparu'r gwasanaethau hyn y tu allan i'n hardal, er enghraifft yn Abertawe, Caerdydd, neu hyd yn oed y tu allan i Gymru megis ym Mryste.

# Beth yw Uned Mân Anafiadau?

Mae Unedau Mân Anafiadau yn darparu gofal ar gyfer anafiadau sydd angen sylw ar frys ond nad ydynt yn argyfwng nac yn bygwth bywyd. Maent yn tueddu i fod yn wasanaethau galw i mewn, ond gall pobl ffonio ymlaen llaw i archebu slotiau mewn rhai achosion. Yn Hywel Dda mae gennym Unedau Mân Anafiadau ym mhob un o'n hysbytai mwy, ac rydym hefyd yn darparu gwasanaethau tebyg drwy wasanaethau Gofal Argyfwng/Brys yr Un Diwrnod.

Mae'r Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty Tywysog Philip, Llanelli yn darparu gofal i oedolion a phlant dros 12 mis oed sydd â mân anafiadau fel:

- ▶ mân glwyfau
- ▶ mân frathiadau neu bigiadau (gan bobl, pryfed neu anifeiliaid)
- ▶ mân losgiadau a sgaldiadau
- ▶ mân anafiadau i'r pen / rhwygiadau i groen y pen
- ▶ darnau estron yn y croen, y llygad, y glust neu'r trwyn
- ▶ mân anafiadau i fraich neu goes
- ▶ mân anafiadau i'r llygad

Mae unedau mân anafiadau yn cael eu rhedeg gan dîm profiadol o ymarferwyr nyrsio brys, nyrsys brysbennu a gweithwyr cymorth gofal iechyd medrus ag hyfforddiant arbennig. Mae Ysbyty Tywysog Philip, Llanelli, yn uned dan arweiniad meddygon. Gall uned dan arweiniad meddyg hefyd drin cleifion sydd ag achosion mwy cymhleth o'r anafiadau a restrir uchod a phroblemau meddygol nad ydynt yn rhai brys. Nid yw Uned Mân Anafiadau yn adran Achosion Brys, dim ond mân anafiadau, fel y rhestrir uchod, y gellir eu trin.

## A wyddoch chi?

Mae unedau mân anafiadau yn cael eu rhedeg mewn gwahanol ffyrdd. Mae rhai yn cael eu rhedeg gan feddygon a nyrsys, ac eraill yn cael eu rhedeg gan nyrsys.

# Beth yw'r ymgynghoriad hwn?

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â sut y gallem ddarparu gwasanaethau yn Uned Mân Anafiadau Ysbyty Tywysog Philip yn Llanelli yn y dyfodol.

Yn dilyn newid dros dro i oriau agor – newid o 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos – i wasanaeth 12 awr sydd ar gael rhwng 8am ac 8pm saith diwrnod yr wythnos, mae angen i ni nawr gytuno ar fodel gwasanaeth sy'n addas ar gyfer y tymor hwy.

Mae gennym bedwar opsiwn sydd wedi'u datblygu gyda'n grwpiau rhanddeiliaid yr hoffem gael eich adborth arnynt. Rydym hefyd yn agored i syniadau newydd nad ydynt wedi'u hystyried fel rhan o'r broses ddatblygu. Nid yw'r Uned Asesu Meddygol Acíwt a'r gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Orlau yn Ysbyty Tywysog Philip yn rhan o'r ymgynghoriad hwn.

## A wyddoch chi?

Mae'r Uned Asesu Meddygol Acíwt (AMAU) yn trin cleifion meddygol sâl iawn yn Ysbyty Tywysog Philip a'i bod ar agor 24 awr, 7 diwrnod yr wythnos. Nid yw'n wasanaeth galw i mewn - mae cleifion yn cael eu hatgyfeirio i'r Uned Asesu Meddygol Acíwt trwy 111, 999, neu eu meddyg teulu.

# Pam fod angen newid y gwasanaeth presennol?

---

Nid oedd y model gwasanaeth diweddar a oedd yn gweithredu 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos, yn yr Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty Tywysog Philip yn gynaliadwy am sawl rheswm. Arweiniodd hyn at y newid brys a thros dro i oriau agor ym mis Tachwedd 2024.

Gellir crynhoi'r rhesymau dros y newid fel:

- ▶ Gweithlu bregus a risgiau clinigol
- ▶ Gweithlu'n gweithio y tu allan i (a/neu o dan) eu cwmpas ymarfer
- ▶ Mynychu amhriodol cleifion lechyd Meddwl
- ▶ Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru (AGIC) yn codi pryderon ynghylch diogelwch yr Uned yn ei harolygiad ym Mehefin 2023, gan gynnwys:
  - ▶ Pryderon ynghylch diogelwch clinigol a godwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i AGIC
  - ▶ Gofal amserol ac effeithiol yn cael ei ddarparu i gleifion a oedd yn yr Uned Mân Anafiadau a ddylai fod wedi cael eu trin yn rhywle arall (cleifion meddygol a llawfeddygol), a elwir yn 'angen mawr'
  - ▶ Ansawdd yr amgylchedd ar gyfer trin cleifion meddygol a llawfeddygol
  - ▶ Diffyg cymorth dros nos i Ymarferwyr Nyrsio Brys, pan nad oedd meddygon ar gael.

Gallwch ddarllen papur y Bwrdd yn ei gyfanrwydd yn yr adran dogfennau ategol ar ein gwefan yn [biphdd.gig.cymru/UMAYTP](http://biphdd.gig.cymru/UMAYTP).

Yn ei gyfarfod ym mis Medi 2024, cytunodd y Bwrdd i newid oriau agor yr Uned Mân Anafiadau, a hynny dros dro. Cytunwyd hefyd i weithio gyda staff a'n cymuned i ddatblygu cyfres o opsiynau ar gyfer model gwasanaeth y dyfodol ar gyfer yr Uned.

## Beth sydd wedi digwydd ers y newid dros dro i oriau agor?

---

Ym mis Tachwedd 2024, cafodd y Bwrdd adroddiad arall a oedd yn egluro'r dull o ddatblygu'r opsiynau hirdymor ar gyfer y model darparu gwasanaeth yn yr Uned Mân Anafiadau. Mae'r papur hwn hefyd ar gael yn yr adran dogfennau ategol ar ein gwefan yn [biphdd.gig.cymru/UMAYTP](http://biphdd.gig.cymru/UMAYTP).

Cytunodd y Bwrdd i sefydlu:

- ▶ Grŵp Llywio, wedi'i gadeirio gan y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Dros Dro i wneud penderfyniadau am y broses sydd ei hangen i gyflawni'r prosiect ac i lunio cwmpas ymgysylltiad clinigol a chyhoeddus.
- ▶ Grŵp Prosiect, a gadeirir gan Gyfarwyddwr Ysbyty Tywysog Philip, sydd wedi bod yn gyfrifol am ddatblygu a chyflwyno'r broses arfarnu opsiynau ar gyfer y Bwrdd.

Nod y broses hon oedd nodi modelau clinigol hirdymor ar gyfer yr Uned Mân Anafiadau a fyddai'n darparu gwasanaeth diogel, cynaliadwy, hygyrch a charedig, i ddiwallu anghenion poblogaeth Llanelli a'r cymunedau cyfagos, yn ogystal â bodloni safonau ansawdd iechyd a gofal.

Nod y broses hon oedd nodi modelau clinigol hirdymor ar gyfer yr Uned Mân Anafiadau a fyddai'n darparu gwasanaeth diogel a chynaliadwy i ddiwallu anghenion poblogaeth Llanelli a'r cymunedau cyfagos, yn ogystal â bodloni safonau ansawdd iechyd a gofal.

Mae proses ymgysylltu barhaus wedi'i chynnal ag amrywiol randdeiliaid, gan gynnwys:

- ▶ sefydliadau partner (gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ac Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru),
- ▶ cynrychiolwyr cleifion a'r gymuned wedi'u nodi drwy broses mynegi diddordeb,
- ▶ aelodau SOSPPAN,
- ▶ Llais,
- ▶ staff o'r Uned a staff ehangach Ysbyty Tywysog Philip a chynrychiolwyr undebau llafur.

Gyda'i gilydd, ffurfiodd y cynrychiolwyr hyn y grŵp rhanddeiliaid arfarnu opsiynau a gwahoddwyd aelodau o'r gymuned leol i fynegi eu diddordeb mewn ymuno â'r grŵp. Roedd cyfanswm o 42 o bobl yn rhan o'r grŵp gwerthuso opsiynau, gan gynnwys 11 o gynrychiolwyr cymunedol a SOSPPAN.

Fel rhan o'r broses o reoli'r newidiadau i'r Uned Mân Anafiadau yn ddiogel yn dilyn y newid dros dro ac i gefnogi datblygu a sgorio opsiynau, casglwyd a chyflwynwyd data yn ystod y gweithdy terfynol i ddangos yr effaith ar yr Uned Mân Anafiadau a gwasanaethau eraill. Mae hyn yn cynnwys y galw ar wasanaethau Adran Achosion Brys yn ysbytai Glangwili a Threforys.

## Beth ddywedodd ein data wrthym?

Roedd y data'n dangos:

- ▶ roedd y galw cyffredinol am wasanaethau yn debyg rhwng Tachwedd/Rhagfyr 2023 a Thachwedd/Rhagfyr 2024
- ▶ mae lefelau presenoldeb yn yr Uned Mân Anafiadau wedi gostwng ond mae hyn yn adlewyrchu y cau dros nos
- ▶ mae lefelau'r cleifion sy'n mynychu'r Uned Asesu Meddygol Acíwt yn Ysbyty Tywysog Philip yn gyson â lefelau blaenorol
- ▶ mae nifer a chyfran y cleifion â chyflyrau difrifol sy'n mynychu'r Uned Mân Anafiadau wedi gostwng
- ▶ mae amseroedd aros yn yr Uned Mân Anafiadau wedi gostwng ychydig ac ni fu unrhyw gynnydd mewn amseroedd aros yn Ysbyty Glangwili ar gyfer cleifion Llanelli
- ▶ mae torri amodau pedair awr a 12 awr (yr amser y mae pobl yn aros i gael eu gweld) yn yr Uned Mân Anafiadau wedi lleihau
- ▶ Mae data 111 yn dangos cynnydd bychan yng nghyfanswm y galwadau ers y newid dros dro
- ▶ gostyngiad bach yn nifer y galwadau 111 sy'n cael eu trosglwyddo i'r Uned Mân Anafiadau, sy'n adlewyrchu'r cau dros nos
- ▶ cynnydd yn nifer y galwadau 111 sy'n cael eu trosglwyddo i 999 neu'r adran argyfwng, sy'n adlewyrchu'r achosion angen mawr a oedd yn arfer mynychu'r Uned Mân Anafiadau dros nos
- ▶ ni fu unrhyw gynnydd yn nifer y cleifion o Lanelli sy'n mynychu Treforys.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr adran dogfennau ategol ar wefan yr ymgynghoriad yn [biphdd.gig.cymru/UMAYTP](http://biphdd.gig.cymru/UMAYTP).



## Sut y datblygwyd yr opsiynau

Yn y broses arfarnu opsiynau, datblygwyd cyfres o opsiynau ar gyfer darparu gofal iechyd yn yr Uned Mân Anafiadau yn seiliedig ar egwyddorion gofal sy'n ddiogel, cynaliadwy, hygyrch a charedig. Mae angen i'r opsiynau hefyd fodloni argymhellion adroddiad arolygu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), a amlygodd faterion diogelwch cleifion.

Cytunodd y Grŵp Llywio ar y cwmpas a'r broses ar gyfer datblygu opsiynau a gweithgareddau gwerthuso.

Cytunodd y Grŵp Llywio y dylai'r opsiynau a ddatblygwyd:


- ▶ Ymateb i argaeledd staffio a chymysgedd sgiliau
- ▶ Ymateb i anghenion cleifion sy'n cyrraedd yr Uned Mân Anafiadau
- ▶ Ymateb i ganfyddiadau adroddiad arolygu AGIC
- ▶ Gwella diogelwch cleifion a lleihau risg glinigol

Ar yr un pryd, cytunodd y Grŵp Llywio fod y canlynol y tu allan i gwmpas datblygu'r opsiynau, ac nad ydynt yn rhan o'r ymgynghoriad hwn:

- ▶ Newidiadau i'r Uned Asesu Meddygol Acíwt
- ▶ Ailsefydlu Adran argyfwng lawn (neu adran Achosion Brys) yn Ysbyty Tywysog Philip
- ▶ Newidiadau i wasanaeth Meddyg Teulu y Tu Allan i Oriau/111 a ddarperir yn Ysbyty Tywysog Philip
- ▶ Cau'r Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty Tywysog Philip yn llwyr
- ▶ Symud yr Uned Mân Anafiadau i ffwrdd o Ysbyty Tywysog Philip

Mae'r ymagwedd hon yn seiliedig ar ymgysylltu parhaus ac mae'n galluogi unigolion i rannu gwybodaeth drwy gydol y broses i ddylanwadu ar wneud penderfyniadau, hyd yn oed os nad ydynt yn rhan o'r grŵp rhanddeiliaid sy'n arfarnu opsiynau. Gwnaethpwyd hyn trwy ymatebion i arolygon, sgysiau mewn digwyddiadau galw heibio cyhoeddus, cyfarfodydd gyda grwpiau cymunedol, a gyda'n tîm Datblygu Cymunedol ac Allgymorth.

Mae'r broses a ddilynwyd wedi'i chrynhoi yn y diagram hwn:



Roedd dau gam i'r rhan datblygu opsiynau. Roedd y cam cyntaf yn cynnwys staff sy'n gweithio yn yr Uned Mân Anafiadau, a staff o gymuned ehangach Ysbyty Tywysog Philip (gan gynnwys staff clinigol, therapïau a rheolwyr gwasanaeth), a ddatblygodd restr hir o opsiynau posibl.

Roedd yr ail gam yn cynnwys y grŵp rhanddeiliaid arfarnu opsiynau a fynychodd gyfres o weithdai i ystyried y rhestr hir o opsiynau, awgrymu opsiynau ychwanegol a llunio'r rhestr fer o opsiynau yr ydym yn ceisio eich barn arnynt yn yr ymgynghoriad hwn. Roedd y grŵp rhanddeiliaid arfarnu opsiynau yn cynnwys ein staff, aelodau Llais a SOSPPAN, a thrigolion Llanelli a oedd wedi mynegi diddordeb mewn bod yn rhan o'r broses.

Gallwch ddarllen mwy am fanylion y gweithdai a'r broses a ddilynwyd ym mhapur y Bwrdd a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Mawrth ac sydd ar gael yn y dogfennau ategol ar ein gwefan yn [biphdd.gig.cymru/UMAYTP](http://biphdd.gig.cymru/UMAYTP).

Yn ystod y cam cyntaf, a oedd yn cynnwys staff, datblygwyd rhestr hir gychwynnol o wyth opsiwn posibl gan grŵp dan arweiniad clinigol, gan gynnwys y model 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos gwreiddiol a'r model 12 awr dros dro.

Yn ystod yr ail gam, a oedd yn cynnwys aelodau o'n cymuned, cynigiwyd pedwar opsiwn arall a derbyniwyd eu bod o fewn y cwmpas, a hynny yn y sesiwn gwirio a herio rhestr hir gyda'r grŵp rhanddeiliaid arfarnu opsiynau ehangach.

Yna, adolygwyd y 12 opsiwn hyn yn erbyn meini prawf rhwystr. Meini prawf rhwystr yw'r meini prawf lleiaf y mae'n rhaid i'r opsiwn arfaethedig eu bodloni. Roedd hyn er mwyn sicrhau mai dim ond opsiynau ymarferol a chyflawnadwy a fyddai'n cael eu datblygu ar gyfer datblygiad parhaus cyn y broses o lunio rhestr fer, a oedd yn edrych yn fanylach ar yr opsiynau sy'n weddill.

## Meini prawf rhwystr

Dyma'r meini prawf rhwystr, a adolygwyd gan y Grŵp Llywio ac a ddefnyddiwyd yn y sesiwn gweithdy:

### Clinigol gynaliadwy – a yw'r opsiwn posibl yn glinigol gynaliadwy?

- ▶ A yw'n caniatáu cynnydd tuag at gyflawni safonau ansawdd?
- ▶ A yw'n ystyried unrhyw gyd-ddibyniaethau?
- ▶ A fydd gweithlu ar gael i'w gyflawni?

### Cyflawnadwy – a ellir gweithredu'r opsiwn posibl hwn?

- ▶ A fydd modd ei gyflawni'n glinigol o fewn yr amserlen ofynnol (6-12 mis)?
- ▶ A oes modd ei gyflawni'n weithredol o fewn amserlen tymor canolig o 6-12 mis (e.e. gellir sicrhau unrhyw ofynion cyfalaf neu ystad a'u gweithredu o fewn yr amserlen honno)?

### Hygyrch – a yw'r opsiwn posibl yn hygyrch?

- ▶ A yw'r opsiwn yn darparu mynediad o fewn yr amserlen ofynnol?
- ▶ A fydd yn cefnogi gostyngiad mewn amseroedd aros?
- ▶ A yw'n cefnogi mynediad cyfartal?

### Wedi'i alinio'n strategol – a yw'r opsiwn posibl yn cyd-fynd yn strategol?

- ▶ A yw'r opsiwn yn cefnogi'r cyfeiriad strategol neu o leiaf ddim yn gwrth-ddweud hynny?
- ▶ A yw'r opsiwn yn cefnogi atal integredig i wella iechyd y boblogaeth neu o leiaf ddim yn gwrth-ddweud hynny?

### Ariannol gynaliadwy – a yw'r opsiwn a ffefrir yn sicrhau ei fod yn ariannol gynaliadwy?

- ▶ A yw'r opsiwn yn cefnogi defnydd effeithiol o adnoddau ariannol?

Rhodddwyd y pedwar opsiwn a basiodd y meini prawf rhwystr trwy'r ail sesiwn gwirio a herio. Dyma'r pedwar opsiwn:

- ▶ **Opsiwn 1: uned 12 awr dan arweiniad meddyg (opsiwn C gynt)** – byddai'r uned ar agor i'r cyhoedd am 12 awr; gyda dwy awr arall o staffio i ganiatáu i gleifion yn yr uned gael eu trin.
- ▶ **Opsiwn 2: uned 14 awr dan arweiniad meddyg (opsiwn B gynt)** – byddai'r uned ar agor i'r cyhoedd am 14 awr; gyda dwy awr arall o staffio i ganiatáu i gleifion yn yr uned gael eu trin.
- ▶ **Opsiwn 3: opsiwn fesul cam dan arweiniad meddyg o 12 awr hyd at 24 awr (opsiwn L gynt)** – byddai'r uned hon ar agor i ddechrau am y 12 awr bresennol, ynghyd â dwy awr o staffio, gan symud i 14 awr, gyda dwy awr arall o staffio, ac yn y pen draw i 24 awr yn gyffredinol.
- ▶ **Opsiwn 4: canolfan gofal/triniaeth 'brys' 14 awr (model math Gofal Brys yr Un Diwrnod) (opsiwn I gynt)** – byddai'r uned ar agor i'r cyhoedd am 14 awr; gyda dwy awr arall i ganiatáu i gleifion yn yr uned gael eu trin.

Dyma'r wyth opsiwn a fethodd â bodloni'r meini prawf rhwystr ac na fyddent yn cael eu hystyried fel opsiynau amgen:

- ▶ **Uned 24-awr dan arweiniad Meddyg (opsiwn A gynt)** – byddai'r uned ar agor i'r cyhoedd am 24 awr. Dychwelyd i'r gwasanaeth cyn y newid dros dro heb gyflwyno fesul cam.
- ▶ **Uned 24-awr dan arweiniad Nyrs (opsiwn D gynt)** – byddai'r uned ar agor i'r cyhoedd am 24 awr; ond byddai'n cael ei arwain gan Ymarferwyr Nyrsio Brys gyda chwmpas ymarfer llai na'r uned bresennol dan arweiniad meddyg.
- ▶ **Uned 16 awr dan arweiniad Nyrs (opsiwn E gynt)** – byddai'r uned ar agor i'r cyhoedd am 14 awr gyda dwy awr arall i drin cleifion yn yr uned; byddai hyn yn cael ei arwain gan Ymarferwyr Nyrsio Brys gyda llai o sgôp ymarfer na'r uned bresennol dan arweiniad meddyg.
- ▶ **Uned 12 awr dan arweiniad Nyrs (opsiwn F gynt)** – byddai'r uned ar agor i'r cyhoedd am 12 awr gyda dwy awr arall i drin cleifion yn yr uned; byddai hyn yn cael ei arwain gan Ymarferwyr Nyrsio Brys gyda llai o sgôp ymarfer na'r uned bresennol dan arweiniad meddyg.
- ▶ **Model Gofal Brys yr Un Diwrnod 24 awr (opsiwn G gynt)** – byddai hwn yr un fath ag opsiwn 4, ond byddai ar gael 24 awr y dydd.
- ▶ **Uned 12 awr dan arweiniad Meddyg (opsiwn H gynt)** – byddai hwn yr un fath ag opsiwn 4, ond byddai ar gael 12 awr y dydd gyda dwy awr arall i drin cleifion yn yr uned.
- ▶ **Model Gofal Brys yr Un Diwrnod 16 awr (opsiwn J gynt)** – byddai hwn yr un fath ag opsiwn 4, ond byddai ar gael 14 awr y dydd gyda dwy awr arall i drin cleifion yn yr uned, yn ogystal â mân anafiadau.
- ▶ **Model Gofal Brys Ffôn yn Gyntaf 24 awr (opsiwn K gynt)** – byddai hwn yr un fath â'r gwasanaeth cyn y newid dros dro, ond yn hytrach na bod cleifion yn gallu cerdded i mewn, byddai pobl yn galw ymlaen llaw i gael mynediad at ofal.

# Sut mae'r opsiynau'n cymharu â'i gilydd?

Er nad oes gennym opsiwn a ffefrir, cynhaliwyd ymarfer sgorio cychwynnol gyda'r grŵp rhanddeiliaid arfarnu opsiynau i ddeall a oes gwahaniaeth rhwng y pedwar opsiwn arfaethedig.

Ar ôl yr ail sesiwn wirio a herio, sgoriwyd y pedwar opsiwn ar y rhestr fer mewn sesiwn gyda'r grŵp rhanddeiliaid. Sgoriwyd yr opsiynau gan ddefnyddio cyfres o feini prawf gwerthuso a oedd yn cyd-fynd â themâu a ganfuwyd o fewn Asesiadau Effaith Ansawdd, sef: Diogel, Amserol, Effeithiol, Effeithlon, Teg a Pherson-ganolog (STEEEP):

Parth STEEP	Categori
Diogel	<ul style="list-style-type: none"><li>▶ Effaith ar wasanaethau mewnol (e.e. Uned Asesu Meddygol Acíwt; Adran Argyfwng)</li><li>▶ Effaith ar wasanaethau allanol (e.e. byrddau iechyd eraill, Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru)</li></ul>
Amserol	<ul style="list-style-type: none"><li>▶ Gostyngiad mewn amser aros</li></ul>
Effeithiol	<ul style="list-style-type: none"><li>▶ Cydymffurfio â safonau neu eu cyflawni</li></ul>
Effeithlon	<ul style="list-style-type: none"><li>▶ Cynaliadwyedd gweithlu – Gweithlu sylweddol ar gael i ateb y datrysiad ymhen 6 – 12 mis</li><li>▶ Cynaliadwyedd ariannol – y gwahaniaeth mewn cost rhwng y model presennol a'r opsiwn arfaethedig</li></ul>
Teg	<ul style="list-style-type: none"><li>▶ Mynd i'r afael â rhwystrau i gydraddoldeb</li><li>▶ Effaith ar ganlyniadau iechyd y boblogaeth</li></ul>
Person-ganolog	<ul style="list-style-type: none"><li>▶ Galw cleifion i fod angen gwasanaeth</li></ul>

Cafodd y meini prawf arfarnu eu pwysoli yn ystod y sesiwn llunio rhestr fer derfynol a'u defnyddio i sgorio'r opsiynau.

Yma, rydym yn amlinellu nodweddion allweddol pob opsiwn gan ddefnyddio'r cyflwyniadau o'r opsiynau a gafodd eu rhannu yn ystod y sesiwn sgorio derfynol.

Mae'r categori coch, oren a gwyrdd yn disgrifio a yw'r data a gasglwyd yn ystod y broses yn awgrymu y bydd yr opsiwn yn bodloni'r meini prawf, er enghraifft ar staff neu gyllid. Mae gwyrdd yn golygu bod y data yn awgrymu y byddai'r opsiwn yn cefnogi'r meini prawf i'w bodloni. Ambr yn golygu bod y data yn awgrymu y byddai'r opsiwn yn cefnogi'r meini prawf i'w bodloni ond gyda risgiau pe byddai'r gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio yn yr un modd ag yr oedd cyn y newid dros dro. Mae coch yn golygu bod y data yn awgrymu na fyddai'r opsiwn yn bodloni'r meini prawf.

## Opsiwn 1: uned 12 awr dan arweiniad meddyg

Mae'r model hwn yn seiliedig ar yr Uned dan Arweiniad Meddyg 12 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos presennol, gyda dwy awr arall o staffio i ganiatáu i gleifion yn yr uned gael eu trin. Byddai hyn yn unol â model cau dros dro sydd wedi bod ar waith ers 1 Tachwedd 2024 sydd ar agor rhwng 8am ac 8pm bob dydd.

Roedd yr oriau agor yn seiliedig ar lai o bresenoldeb rhwng 8pm ac 8am, cyn i'r newid dros dro gael ei gyflwyno.

<b>Uned ar agor i'r cyhoedd</b>	8am – 8pm, saith diwrnod yr wythnos	
<b>Oriau staffio'r Uned</b>	8am - 10pm, saith diwrnod yr wythnos	
<b>Effaith ar wasanaethau mewnol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▶ Dim effeithiau negyddol ar wasanaethau arall</li> <li>▶ Gostyngiad yn nifer y cleifion sy'n ddifrifol wael yn dilyn y newid</li> </ul>	Gwyrdd
<b>Effaith ar wasanaethau allanol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▶ Dim effeithiau negyddol ar wasanaethau arall</li> <li>▶ Tystiolaeth bod pobl yn cael eu hailgyfeirio'n ddiogel</li> </ul>	Gwyrdd
<b>Gostyngiad mewn amseroedd aros</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▶ Tystiolaeth bod amseroedd aros wedi lleihau</li> <li>▶ Llai o gleifion yn aros dros 4 a 12 awr</li> </ul>	Gwyrdd
<b>Cydymffurfiaeth/ cyrhaeddiad safonau</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▶ Sefyllfa gweithlu meddygol mwy cadarn</li> <li>▶ Cau dros nos yn atal cleifion sâl rhag aros yn yr uned tra byddant yn aros am driniaeth</li> </ul>	Gwyrdd
<b>Cynaliadwyedd gweithlu</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▶ Gweithlu ar gael ar hyn o bryd gyda rhai anghenion hyfforddi ychwanegol</li> <li>▶ Ni fyddai angen recriwtio ychwanegol yn y gwasanaeth Gofal Brys yr Un Diwrnod</li> </ul>	Gwyrdd
<b>Cynaliadwyedd ariannol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▶ Ni fyddai angen defnyddio staff asiantaeth neu staff banc gyda rota lawn</li> <li>▶ Byddai'n ariannol gynaliadwy oherwydd llai o oriau gweithredu</li> </ul>	Gwyrdd
<b>Mynd i'r afael â rhwystrau i gydraddoldeb/ iechyd y boblogaeth</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▶ Oriau gwasanaeth yn ateb y rhan fwyaf o'r galw (rhwng 8am ac 8pm)</li> <li>▶ Oriau agor byrraf o'r holl opsiynau</li> </ul>	Ambr

## Opsiwn 2: uned 14 awr dan arweiniad meddyg

Mae'r uned ar agor i'r cyhoedd am 14 awr; gyda dwy awr arall o staffio i ganiatáu i gleifion yn yr uned gael eu trin.

Uned ar agor i'r cyhoedd	7am – 9pm, saith diwrnod yr wythnos	
Oriau staffio'r Uned	7am – 11pm, saith diwrnod yr wythnos	
Effaith ar wasanaethau mewnol	<ul style="list-style-type: none"> <li>▶ Dim effeithiau negyddol ar wasanaethau arall a gostyngiad mewn cleifion difrifol wael yn dilyn y newid, ond gall gynyddu gydag oriau estynedig</li> </ul>	Ambr
Effaith ar wasanaethau allanol	<ul style="list-style-type: none"> <li>▶ Dim effeithiau negyddol ar wasanaethau arall a thystiolaeth bod pobl yn cael eu hailgyfeirio'n ddiogel, ond gallai defnydd 111 leihau gydag oriau estynedig</li> </ul>	Ambr
Gostyngiad mewn amseroedd aros	<ul style="list-style-type: none"> <li>▶ Tystiolaeth bod amseroedd aros wedi lleihau gyda llai o gleifion yn aros dros 4 a 12 awr, ond y gallent gynyddu gydag oriau estynedig</li> </ul>	Ambr
Cydymffurfiaeth/cyrraedd safonau	<ul style="list-style-type: none"> <li>▶ Sefyllfa gweithlu meddygol mwy cadarn</li> <li>▶ Cau dros nos yn atal cleifion sâl rhag aros yn yr uned tra byddant yn aros am driniaeth</li> </ul>	Gwyrdd
Cynaliadwyedd gweithlu	<ul style="list-style-type: none"> <li>▶ Mae angen recriwtio meddygol ychwanegol ac anghenion hyfforddi</li> <li>▶ Ni fyddai angen recriwtio ychwanegol yn y gwasanaeth Gofal Brys yr Un Diwrnod</li> </ul>	Ambr
Cynaliadwyedd ariannol	<ul style="list-style-type: none"> <li>▶ Gallai unrhyw staffio locwm neu banc ychwanegol gael ei wrthbwyso gan lai o oriau gweithredu</li> </ul>	Gwyrdd
Mynd i'r afael â rhwystrau i gydraddoldeb/iechyd y boblogaeth	<ul style="list-style-type: none"> <li>▶ Ehangu amser dechrau a gorffen yn cwrdd â mwy o alw yn ystod y dydd</li> <li>▶ Dechrau a gorffen yn gynharach i gyd-fynd â thrafnidiaeth gyhoeddus</li> </ul>	Gwyrdd

## Opsiwn 3: opsiwn fesul cam dan arweiniad meddyg o 12 awr hyd at 24 awr

Byddai'r uned hon ar agor am y 12 awr bresennol i ddechrau, gyda dwy awr arall o staffio i ganiatáu i gleifion yn yr uned gael eu trin. Byddai wedyn yn symud i 14 awr, gyda dwy awr arall o staffio i ganiatáu i gleifion yn yr uned gael eu trin ac yn y pen draw 24 awr yn gyffredinol. Os bydd yr opsiwn hwn yn cael ei ddewis, bydd y cyflwyno fesul cam yn cael ei ddatblygu dros amser, ond byddai ymrwymiad i ddychwelyd i fodel 24 awr, saith diwrnod yr wythnos cyn gynted ag y bydd yn ddiogel ac yn ymarferol i wneud hynny.

<b>Uned ar agor i'r cyhoedd</b>	8am – 8pm i gychwyn, yn cynyddu i 7am – 9pm, cyn symud i 24 awr unwaith mae'n ddiogel i wneud. Yr amseroedd i gyd yn saith niwrnod yr wythnos	
<b>Oriau staffio'r Uned</b>	8am – 10pm i gychwyn, yn cynyddu i 7am – 11pm, cyn symud i 24 awr unwaith mae'n ddiogel i wneud. Yr amseroedd i gyd yn saith niwrnod yr wythnos	
<b>Effaith ar wasanaethau mewnol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▶ Dim effeithiau negyddol ar wasanaethau arall a gostyngiad mewn cleifion difrifol wael yn dilyn y newid, ond gall gynyddu gydag oriau estynedig</li> </ul>	Ambr
<b>Effaith ar wasanaethau allanol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▶ Dim effeithiau negyddol ar wasanaethau arall a thystiolaeth bod pobl yn cael eu hailgyfeirio'n ddiogel, ond gallai defnydd 111 leihau gydag oriau estynedig</li> </ul>	Ambr
<b>Gostyngiad mewn amseroedd aros</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▶ Tystiolaeth bod amseroedd aros wedi lleihau gyda llai o doriadau o ran amseroedd aros 4 a 12 awr, ond y gallent gynyddu gydag oriau estynedig</li> </ul>	Ambr
<b>Cydymffurfiaeth/ cyrhaeddiad safonau</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▶ Sefyllfa gweithlu meddygol mwy cadarn yn amddiffyn nyrsys</li> <li>▶ Cau dros nos yn atal cleifion sâl rhag aros yn yr uned tra byddant yn aros am driniaeth</li> </ul>	Gwyrdd
<b>Cynaliadwyedd gweithlu</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▶ Mae angen recriwtio meddygol ychwanegol ac anghenion hyfforddi</li> <li>▶ Ni fyddai angen recriwtio ychwanegol yn y gwasanaeth Gofal Brys yr Un Diwrnod</li> </ul>	Ambr
<b>Cynaliadwyedd ariannol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▶ Gallai unrhyw staffio locwm neu banc ychwanegol gael ei wrthbwysu gan lai o oriau gweithredu</li> </ul>	Gwyrdd
<b>Mynd i'r afael â rhwystrau i gydraddoldeb/ iechyd y boblogaeth</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▶ Ehangu amser dechrau a gorffen yn cwrdd â mwy o alw yn ystod y dydd</li> <li>▶ Dechrau a gorffen yn gynharach i gyd-fynd â thrafnidiaeth gyhoeddus</li> </ul>	Gwyrdd

## Opsiw'n 4: canolfan gofal brys (model math Gofal Brys yr Un Diwrnod) 14 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos

Byddai'r opsiwn hwn yn ffordd newydd o ddarparu'r gwasanaeth a byddai'n dwyn yr Uned Mân Anafiadau a'r gwasanaethau Gofal Brys yr Un Diwrnod ynghyd. Mae Gofal Brys yr Un Diwrnod yn darparu profion a thriniaethau i gleifion sy'n oedolion sydd â phroblemau meddygol nad oes angen eu derbyn i'r Ysbyty, a gellir cael mynediad at y gwasanaeth trwy feddyg teulu claf. Byddai hyn yn caniatáu ar gyfer gweld a thrin mwy o anafiadau/salwch sydd angen sylw ar frys ond nad ydynt yn argyfwng nac yn bygwth bywyd, nag y mae'r gwasanaeth presennol yn ei gynnig.

Mae gwasanaethau Gofal Brys yr Un Diwrnod yn darparu gofal ar unwaith ar gyfer salwch nad yw'n bygwth bywyd, a hynny ar yr un diwrnod y mae angen help arnoch. Gall gweithwyr proffesiynol eraill atgyfeirio cleifion at y gwasanaeth, neu gallant fynychu ar y diwrnod. Gallant wneud diagnosis a delio â llawer o'r problemau cyffredin gan gynnwys mân anafiadau a welir fel arfer mewn Uned Mân Anafiadau, yn ogystal â mân salwch.

Gall cleifion gael eu hasesu, eu diagnosio, a'u trin ac yna gallant ddychwelyd adref yr un diwrnod. Efallai y rhoddir cynllun gofal iddynt sy'n cynnwys atgyfeiriadau i wasanaethau eraill os oes angen. Bydd y gwasanaethau hyn hefyd yn datblygu cysylltiadau â gwasanaethau cymunedol fel y gall cleifion gael profion a thriniaethau ar gyfer rhai cyflyrau, gan osgoi'r angen i ddod i'r ysbyty.

Uned ar agor i'r cyhoedd	7am – 9pm, saith diwrnod yr wythnos	
Oriau staffio'r Uned	7am – 11pm, saith diwrnod yr wythnos	
Effaith ar wasanaethau mewnol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Lleihad yn nifer y cleifion sy'n ddifrifol wael yn dilyn y newid ond gall gynyddu gydag oriau estynedig. Wedi'i liniaru gydag integreiddio Gofal Brys yr Un Diwrnod i'r model</li> </ul>	Gwyrdd
Effaith ar wasanaethau allanol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dim effeithiau negyddol ar wasanaethau arall a thystiolaeth bod pobl yn cael eu hailgyfeirio'n ddiogel, ond gallai defnydd 111 leihau gydag oriau estynedig</li> </ul>	Ambr
Gostyngiad mewn amseroedd aros	<ul style="list-style-type: none"> <li>Tystiolaeth bod amseroedd aros wedi lleihau gyda llai o gleifion yn aros dros 4 a 12 awr, ond y gallent gynyddu gydag oriau estynedig</li> </ul>	Ambr
Cydymffurfiaeth/cyrhaeddiad safonau	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sefyllfa gweithlu meddygol mwy cadarn yn amddiffyn nyrsys</li> <li>Cau dros nos yn atal cleifion sâl rhag aros yn yr uned tra byddant yn aros am driniaeth</li> </ul>	Gwyrdd
Cynaliadwyedd gweithlu	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae angen recriwtio meddygol ychwanegol ac anghenion hyfforddi yn yr Uned Mân Anafiadau a Gofal Brys yr Un Diwrnod i ehangu'r ddau wasanaeth i staffio oriau gweithredu</li> </ul>	Ambr
Cynaliadwyedd ariannol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gallai cyllid o wasanaeth 24 awr wrthbwysu'r cynnydd mewn gofynion nyrsio Gofal Brys yr Un Diwrnod. Gall staffio ymgynghorol ar gyfer model fod yn fwy na'r cyllid</li> <li>Bydd yr opsiwn hwn yn golygu costau adeiladu i ailfodelu'r gofod sydd ei angen</li> </ul>	Coch
Mynd i'r afael â rhwystrau i gydraddoldeb/iechyd y boblogaeth	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ehangu amser dechrau a gorffen yn cwrdd â mwy o alw yn ystod y dydd</li> <li>Dechrau a gorffen yn gynharach i gyd-fynd â thrafnidiaeth gyhoeddus</li> </ul>	Gwyrdd

# Sgorio'r opsiynau

Y sgorau a ddangosir yw'r sgorau wedi'u pwysoli ar gyfer pob maen prawf ac maent yn dangos nad oes llawer o wahaniaeth rhwng cyfanswm sgoriau'r ddau opsiwn a gafodd y sgôr uchaf. Mae dadansoddiad o'r sgorau opsiwn yn ôl meini prawf yn rhoi mwy o fanylion rhwng yr opsiynau. Roedd y sgoriau ar gyfer yr opsiynau fel a ganlyn, gyda'r opsiynau â'r sgôr uchaf wedi'u hamlygu mewn gwyrdd:

Maen prawf	Opsiwn 1: uned 12 awr dan arweiniad meddyg	Opsiwn 2: uned 14 awr dan arweiniad meddyg	Opsiwn 3: uned dan arweiniad meddyg – fesul cam	Opsiwn 4: canolfan gofal/ triniaeth 'Brys' 14 awr
Effaith ar wasanaethau mewnol	1573	1364	1067	1584
Effaith ar wasanaethau allanol	1085	1036	785	1060
Gostyngiad mewn amseroedd aros	926	776	626	796
Cydymffurfiaeth/ cyrhaeddiad safonau	1747	1551	903	1435
Cynaliadwyedd gweithlu	2056	1440	2056	1506
Cynaliadwyedd ariannol	1218	884	542	721
Mynd i'r afael â rhwystrau i gydraddoldeb	905	1120	1036	1204
Effaith ar ganlyniadau iechyd y boblogaeth	883	1108	1020	1305
Galw cleifion i fod angen gwasanaeth	1514	1771	1614	2086
Cyfanswm	11908	11051	9650	11696

O ystyried bod pob opsiwn yn eithaf tebyg yn eu sgorau, rydym yn awyddus i glywed eich barn ar y pedwar opsiwn. Gallai'r wybodaeth sgorio uchod eich helpu i benderfynu pa opsiwn sy'n bodloni amcanion yr ymghynghoriad orau yn eich barn chi.

# Ceisio eich barn ar opsiynau

---

Rydym wedi datblygu pedwar opsiwn ar gyfer sut rydym yn meddwl y gellid darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae rhai pethau yr un peth ar gyfer pob un o'r pedwar opsiwn, ond mae yna hefyd elfennau newydd ac unigryw ar gyfer pob opsiwn.

Nid oes gennym opsiwn a ffefrir, ac rydym hefyd yn agored i glywed unrhyw syniadau newydd a allai fod gennych sydd o fewn cwrpas yr ymgynghoriad ac nad ydynt eisoes wedi'u hystyried a'u diystyru drwy'r broses datblygu opsiynau. Gallwch ddarllen mwy am yr opsiynau a gafodd eu diystyru yn ystod y broses ar dudalen 12 ac mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y dogfennau technegol sydd ar gael ar ein gwefan [biphdd.gig.cymru/UMAYTP](http://biphdd.gig.cymru/UMAYTP).

Dyma'r pedwar opsiwn yr hoffem gael eich barn arnynt:

**Opsiwn 1** - Gwasanaeth dan arweiniad meddyg ar gael bob dydd am 12 awr

**Opsiwn 2** - Gwasanaeth dan arweiniad meddyg ar gael bob dydd am 14 awr

**Opsiwn 3** - Gwasanaeth fesul cam dan arweiniad meddyg ar gael bob dydd, i ddechrau am 12 awr, gan gynyddu i 14 awr, ac yna i 24 awr

**Opsiwn 4** - Canolfan gofal brys (model math Gofal Brys yr Un Diwrnod) ar gael bob dydd am 14 awr.

## Gyda phwy rydyn ni am siarad â nhw a chlywed ganddynt

---

Rydym yn gwerthfawrogi eich bod yn cymryd yr amser i rannu eich barn. Rydym yn ymgynghori â phob aelod o staff, y cyhoedd sy'n byw yn Llanelli neu'n gweithio yno, neu sydd â diddordeb yn yr Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty Tywysog Philip. Mae hyn yn cynnwys sefydliadau partner a rhanddeiliaid.

Rydym yn cydnabod bod gan bobl ddiddordebau a safbwyntiau gwahanol.

Gallwch chi fod yn:

- ▶ Cyrchu a defnyddio ein gwasanaethau
- ▶ Bod yn ofalwr i rywun sy'n defnyddio ein gwasanaethau
- ▶ Gweithio gyda ni fel aelod o staff, myfyriwr neu fel gwirfoddolwr
- ▶ Cynrychioli sefydliad y gallai ein cynigion effeithio arno
- ▶ Diddori mewn iechyd a llesiant pobl sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin a'r cyffiniau.

Mae'n bwysig ein bod yn gwrando ar farn pawb.

# Yr hyn yr ydym am ei wybod

---

Mae arnom angen ateb cynaliadwy ar gyfer sut rydym yn darparu gwasanaethau yn yr Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty Tywysog Philip. Mae llawer o waith wedi'i wneud i ddatblygu pedwar opsiwn ar gyfer yr ymgynghoriad. Ar hyn o bryd nid oes gennym opsiwn a ffefrir o ran sut y dylid darparu gwasanaethau yn yr Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty Tywysog Philip yn y dyfodol.

Yn yr ymgynghoriad hwn rydym yn gofyn i chi ddweud y canlynol wrthym:

- ▶ pa opsiwn arfaethedig sydd, yn eich barn chi, yn mynd i'r afael â'r heriau y mae'r Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty Tywysog Philip yn eu hwynebu; yn gwella diogelwch cleifion a staff, yn helpu gyda phrinder staff ac yn mynd i'r afael â phryderon Arolygiaeth Iechyd Cymru
- ▶ pryderon a allai fod gennych am unrhyw un o'r opsiynau, neu'r effeithiau y credwch y gallent eu cael
- ▶ unrhyw beth arall y credwch y mae angen i ni ei ystyried, gan gynnwys opsiynau neu syniadau eraill a allai fod gennych

Bydd aelodau'r Bwrdd yn ystyried y cyfan y maent wedi'i glywed yn arwain at, ac yn ystod, yr ymgynghoriad hwn, gan gynnwys yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, a fydd yn ystyried sut y gallai pobl gael eu heffeithio a beth sydd angen ei wneud i leihau unrhyw effaith negyddol. Byddant hefyd yn ystyried unrhyw wybodaeth newydd a allai ddod i'r amlwg oherwydd yr ymgynghoriad hwn.

Mae'n bwysig eich bod yn gwybod bod yr ymgynghoriad yn benodol i drafod model gwasanaeth y dyfodol ar gyfer yr Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty Tywysog Philip. Mae hyn yn golygu nad yw'r gwasanaethau canlynol yn agored i ddylanwad fel rhan o'r ymgynghoriad hwn:

- ▶ Nid yw newidiadau i'r Uned Asesu Meddygol Acíwt nac i wasanaeth Meddyg Teulu y Tu Allan i Oriau yn rhan o'r ymgynghoriad.
- ▶ Unedau Mân Anafiadau mewn ysbytai a lleoliadau cymunedol eraill ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro.

## Effeithiau ar gydraddoldeb – nodweddion gwarchoddedig

---

Gall newid gwasanaethau iechyd a gofal gael effaith ar bob un ohonom sy'n byw neu'n gweithio yn ardal Hywel Dda, waeth beth fo'n hoedran, rhyw, anabledd (corfforol, iechyd meddwl, ac anableddau dysgu), hil, crefydd a chred, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil, neu statws beichiogrwydd a mamolaeth.

Rhaid inni sicrhau bod ein cynigion yn deg i bawb a chymryd gofal arbennig i ystyried pobl sy'n agored i niwed. Rydym eisoes wedi ymgysylltu â rhai grwpiau sy'n cynrychioli pobl agored i niwed a byddwn yn parhau i wneud hynny i sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys drwy gydol ein hymgyngoriad.

Rydym wedi cynhyrchu'r hyn a elwir yn Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) ar gyfer yr Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty Tywysog Philip. Mae'r Asesiad yn cynnwys trosolwg o effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl y newid ar bobl, a sut y byddwn yn eu lliniaru ac yn mynd i'r afael â'n dyletswyddau cydraddoldeb.

Gallwch ddarllen mwy yn fersiwn gyfredol lawn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn adran Dogfennau Ategol ein tudalen we [biphdd.gig.cymru/UMAYTP](http://biphdd.gig.cymru/UMAYTP). Mae gennym ddogfen ategol a all roi enghreifftiau i chi o sut y gallai'r gwahanol opsiynau effeithio ar rywun fel chi neu'ch anwyliad.

Nid yw'r Teulu Jones a'u ffrindiau yn deulu go iawn, ond maent yn enghreifftiau nodweddiadol o rai pobl sy'n byw yn ein hardal. Gallant helpu i ddangos sut y gallai cleifion gael eu heffeithio gan wahanol opsiynau yn yr ymgynghoriad hwn a gallent eich helpu i feddwl am newidiadau posibl i chi.

Gallwch ddarllen ein hastudiaethau achos Teulu Jones sydd ar gael yn yr adran Dogfennau Ategol ar ein tudalennau gwe. Byddwn yn siarad am senarios mewn digwyddiadau cymunedol y byddwn yn eu cynnal yn ystod yr ymgynghoriad hwn. Rydym hefyd yn bwriadu cynnal grwpiau ffocws gyda'r cyhoedd, ac yn arbennig gyda grwpiau agored i niwed neu ddifreintiedig (y cyfeirir atynt fel pobl â nodweddion gwarchoddedig) neu bobl y gallai'r newidiadau hyn i wasanaethau effeithio arnynt. Bydd gwybodaeth o'r grwpiau hyn yn cael ei defnyddio yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wrth i ni ddysgu mwy.

Defnyddir Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i helpu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau wrth ystyried datblygiadau yn y dyfodol.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth fanwl, mae croeso i chi gysylltu: [hyweldda.ymgysylltu@wales.nhs.uk](mailto:hyweldda.ymgysylltu@wales.nhs.uk)

## Nodweddion gwarchoddedig

Gall rhai pobl â nodwedd warchoddedig fod yn fwy difreintiedig neu wynebu mwy o anawsterau wrth geisio cael mynediad at wasanaethau gofal iechyd. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn amddiffyn pobl rhag cael eu trin yn waeth na phobl eraill oherwydd:

- ▶ Oed
- ▶ Anabledd
- ▶ Ailbennu rhywedd
- ▶ Priodas a phartneriaeth sifil
- ▶ Beichiogrwydd a mamolaeth
- ▶ Hil
- ▶ Crefydd a chred (gan gynnwys dim cred grefyddol)
- ▶ Rhyw
- ▶ Cyfeiriadedd rhywiol.

Mae ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb hefyd yn ystyried yr effeithiau posibl y gall unigolion eu cael o ganlyniad i fod yn rhan o gymuned y Lluoedd Arfog, sefyllfa gymdeithasol a/neu economaidd person, yn gymdeithasol-economaidd a'r iaith Gymraeg.

Yn ein polisiau a sut rydym yn gweithio, rhaid inni:

- ▶ lleihau gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiadau arall a waherddir gan neu o dan y Ddeddf
- ▶ hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol a phobl nad ydynt
- ▶ meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol a phobl nad ydynt.

Rydym hefyd yn anelu at y canlynol:

- ▶ dileu neu leihau anfanteision a ddioddefir gan bobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol ac sy'n gysylltiedig â'r nodwedd honno
- ▶ diwallu anghenion pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol sy'n wahanol i anghenion pobl nad ydynt yn ei rhannu
- ▶ annog pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu unrhyw weithgaredd arall lle mae cyfranogiad gan bobl o'r fath yn anghymesur o isel
- ▶ ystyried sut y byddwn yn mynd i'r afael â rhagfarn a dealltwriaeth.

Gall newid y ffordd y mae ein gwasanaethau'n gweithredu achosi i bobl â nodwedd warchoddedig brofi effeithiau cadarnhaol, a/neu negyddol, canlyniadau anfwriadol, neu fylchau yn y ddarpariaeth gofal iechyd. Byddwn yn archwilio ymhellach, yn ystod yr ymgynghoriad hwn, y gwahaniaethau posibl a achosir gan bob un o'r opsiynau. Byddwn hefyd yn dangos sut y gellid osgoi neu leihau effeithiau negyddol yn ogystal â gwneud y mwyaf o effeithiau cadarnhaol.

## Y Gymraeg

Mae llawer yn yr ardal a gwmpesir gan Hywel Dda, 45%, yn siarad Cymraeg, sy'n nifer uwch na'r cyfartaledd o gymharu â'r cyfartaledd ar draws Cymru. Rydym yn parhau i wneud cynnydd tuag at gydymffurfio â'r Safonau Iaith Gymraeg statudol, gan sicrhau bod pob cyfathrebiad, gan gynnwys digidol, print ac arwyddion, yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg, gyda'r Gymraeg ddim yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ymdrechwn i hyrwyddo amgylchedd dwyieithog i chi a'n staff a chefnogi ein staff i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn ein gweithleoedd a'n cymunedau. Rydym hefyd yn gweithio i sicrhau bod pobl yn cael cynnig gwasanaethau yn Gymraeg heb orfod gofyn, fel y disgrifir yng nghynllun Mwy Na Geiriau Llywodraeth Cymru.

Mae gennym darged i sicrhau bod gan 50% o'n gweithlu lefel sylfaen o Gymraeg o fewn y 10 mlynedd nesaf ac rydym yn adrodd ar ein cynnydd trwy ein Hadroddiad Blynyddol Iaith Gymraeg sydd i'w weld ar ein gwefan.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydreddoldeb llawn yn rhoi rhagor o fanylion am sut y gallai'r newidiadau i wasanaethau effeithio ar y Gymraeg, ond byddem yn croesawu unrhyw sylwadau ac adborth arall.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Yn y ddogfen hon, rydym wedi nodi'r cefndir, pam mae angen inni newid, a'r opsiynau yr ydym yn ymgynghori arnynt. Ceir disgrifiad llawn o'r pedwar opsiwn hyn ar dudalen 11.

Mae eich adborth, ynghyd â thystiolaeth ac ystyriaethau eraill gyda'n helpu ein Bwrdd i ddewis yr opsiwn gorau ar gyfer model gwasanaeth y dyfodol yn yr Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty Tywysog Philip.

Bydd y Bwrdd yn cyfarfod yn ddiweddarach yn y flwyddyn (disgwylir i hyn fod tua diwedd 2025) i benderfynu ar yr opsiwn mwyaf priodol.

# Cymryd rhan

---

Bydd gwybodaeth ar sut i gymryd rhan a rhannu eich barn ar gael mewn amrywiaeth o leoliadau gan gynnwys ein hysbytai a'n safleoedd cymunedol, adeiladau'r cyngor a thrwy sefydliadau'r sector gwirfoddol.

Byddwn yn cynnal digwyddiadau galw heibio, wyneb yn wyneb ac ar-lein. Mae manylion am ble a phryd y byddwch yn gallu dod i gwrdd â ni ar ein gwefan [biphdd.gig.cymru/UMAYTP](http://biphdd.gig.cymru/UMAYTP) ac ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda'r cyfryngau lleol, gan gynnwys sefydliadau radio a'r wasg i godi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad hwn.

Rydym yn gwerthfawrogi eich bod yn cymryd yr amser i rannu eich barn – mae mewnbyn pob person yn bwysig. Cymerwch amser i ddarllen y ddogfen hon a dywedwch wrthym beth yw eich barn erbyn 22 Gorffennaf 2025.

Gallwch wneud hyn drwy:

- ▶ llenwi'r holiadur ar-lein: [biphdd.gig.cymru/UMAYTP](http://biphdd.gig.cymru/UMAYTP) neu ar bapur (gallwch ofyn am gopi trwy anfon e-bost atom neu ein ffonio ar y rhif isod) a'i bostio i: **FREEPOST HYWEL DDA HEALTH BOARD** (ni fydd angen stamp)
- ▶ ein ebostio: [hyweldda.ymgysylltu@wales.nhs.uk](mailto:hyweldda.ymgysylltu@wales.nhs.uk)
- ▶ dod i siarad â ni yn un o'n digwyddiadau (ewch i'r wefan uchod am ddigwyddiad yn eich ardal chi neu ar-lein), neu drwy ffonio **0300 303 8322**, opsiwn 5 (pris galwad leol)

## Datganiad Preifatrwydd – beth sy'n digwydd â'ch adborth?

---

Bydd yr adborth a gawn gan unigolion yn ddiennw. Gall safbwyntiau a ddarperir gan sefydliadau neu bobl sy'n gweithredu mewn swyddogaeth swyddogol gael eu cyhoeddi'n llawn.

Bydd ein hadroddiad dadansoddi ac allbwn yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod o'r Bwrdd Cyhoeddus a bydd ar gael ar ein gwefan. Bydd hwn yn cael ei rannu gyda Llais am eu sylwadau. Llais yw'r corff statudol annibynnol sy'n rhoi mwy o lais i bobl Cymru wrth gynllunio a darparu eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn casglu'r data a gyflwynwch fel gwybodaeth hanfodol er mwyn i ni allu cyflawni'r dasg gyhoeddus o ymgynghori â chi, a dyma'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio'ch data personol.

Bydd y Bwrdd Iechyd yn prosesu unrhyw wybodaeth a ddarperir gennych mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn unol â'r rheoliadau diogelu data diweddaraf. Bydd y Bwrdd Iechyd yn cadw unrhyw wybodaeth bersonol a ddarperir am ddim mwy na blwyddyn ar ôl i unrhyw benderfyniadau gael eu cwblhau.

Bydd themâu cyffredinol a godir gan gymunedau ar sianeli cyfryngau cymdeithasol y Bwrdd Iechyd, ond nid gwybodaeth bersonol, yn cael eu casglu fel y gellir cynnwys y rhain yn yr adroddiad allbwn.

I gael ein datganiad preifatrwydd llawn, ewch i [biphdd.gig.cymru/UMAYTP](http://biphdd.gig.cymru/UMAYTP) a gweld ein hysbysiad preifatrwydd o dan dolenni defnyddiol.

# Rydyn ni'n gwranddo

---

Rydyn ni'n gwybod ei bod hi'n bwysig eich diweddarau chi, yn enwedig pan fyddwch chi wedi cymryd yr amser i rannu eich barn gyda ni.

Bydd adroddiad allbwn i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi, ei ystyried yn llawn, a'i drafod fel rhan o gyfarfod Bwrdd Iechyd, a gynhelir yn ddiweddarach yn 2025.

Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd Iechyd yn gyhoeddus, gyda phobl naill ai'n gallu mynychu'n bersonol neu wyllo'n ddigidol. Byddwn yn hysbysebu'r cyfarfod hwn ar ein gwefan [biphdd.gig.cymru/UMAYTP](https://biphdd.gig.cymru/UMAYTP) a thudalennau cyfryngau cymdeithasol.

Bydd grŵp prosiect ar gyfer yr ymgynghoriad, sy'n cynnwys staff y Bwrdd Iechyd, Llais a SOSPPAN, yn cyflwyno argymhelliad i Gyfarwyddwyr ac Aelodau Annibynnol y Bwrdd Iechyd ar y ffordd bosibl ymlaen o ran sut y gallem ddarparu gwasanaethau yn yr Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty Tywysog Philip yn Llanelli yn y dyfodol. Gelwir hyn yn adroddiad terfynol.

Bydd aelodau'r Bwrdd yn ystyried popeth y maent wedi'i glywed yn arwain at, ac yn ystod, yr ymgynghoriad hwn, gan gynnwys yr Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a dogfennau a data ategol eraill yr ydym wedi'u casglu ac y cyfeiriwyd atynt yn y ddogfen hon. Fe fyddan nhw hefyd yn ystyried unrhyw wybodaeth newydd a allai ddod i'r amlwg o'r ymgynghoriad.

## Sut byddwn yn rhoi adborth i chi

---

Byddwn yn cyhoeddi'r adroddiad allbwn a'r adroddiad terfynol ar ein gwefan, a byddwn yn cyhoeddi'n swyddogol pan fydd ar gael.

Byddwn yn rhannu'r adroddiadau hyn mor eang â phosibl â phobl sy'n byw yn ein hardal sydd wedi gofyn am gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau a thrwy ddefnyddio diweddariadau drwy randdeiliaid allweddol, y cyfryngau lleol, a'r cyfryngau cymdeithasol. Os hoffech gael y diweddariadau hyn, ymunwch â'n cynllun cynnwys ac ymgysylltu Siarad Iechyd / Talking Health drwy:

- ▶ Ebstio: [hyweldda.ymgysylltu@wales.nhs.uk](mailto:hyweldda.ymgysylltu@wales.nhs.uk)
- ▶ Ffonio: **0300 303 8322** opsiwn 5 (pris galwad lleol)
- ▶ Ysgrifennu atom yn: **FREEPOST HYWEL DDA HEALTH BOARD.**

Diolch yn fawr.